# Ymgynghoriad ynglŷn â newidiadau i ffioedd

# Neges gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cynnig Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) i gynyddu'r ffioedd rydym yn eu codi ar rai sydd wedi cofrestru ac ar ymgeiswyr. Mae'n darparu gwybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio'r incwm a dderbyniwn, yr arbedion effeithlonrwydd a'r gwelliannau rydym wedi eu cyflawni ers y codiad diwethaf yn ein ffioedd, a'r camau rydym wedi eu cymryd er mwyn gohirio'r angen i gynyddu'r ffioedd.
Yn sail i'r cynigion hyn, mae dadansoddiad ariannol gofalus o'r hyn y mae ei angen er mwyn i HCPC barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio. Heb y cynnydd rydym yn ei geisio, mae HCPC yn wynebu peidio â bod yn gynaliadwy yn ariannol mwyach.

Ymgynghoriad yw hwn; rydym eisiau clywed safbwyntiau y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni a phobl eraill sydd â diddordeb yn ein gwaith. Byddwn yn ystyried y safbwyntiau y byddwch yn eu mynegi yn ofalus ac yn rhoi sylw iddynt wrth derfynoli ein cynigion. Mae'r cwestiynau rydym yn eu gofyn i'w gweld ar dudalen 12 a byddem yn eich annog i ddarllen y wybodaeth a gyflwynir yn y ddogfen hon cyn i chi ateb y cwestiynau hyn.

Petai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r cynnydd yn dod yn weithredol ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd ar ddechrau eu ffenestr adnewyddu, gan ddechrau gyda'r proffesiynau y mae eu ffenestr yn agor ym mis Gorffennaf 2023. Ni fyddai mwyafrif y rhai sydd wedi cofrestru yn talu'r cynnydd yn y ffi adnewyddu tan 2024 neu 2025. Serch hynny, rydym yn gwybod bod y rhai sydd wedi cofrestru yn wynebu amserau heriol, felly rydym yn benderfynol o ystyried ffyrdd y gallwn ni ddarparu cefnogaeth bellach iddynt.

Rydym wedi cyflwyno awgrymiadau ynglŷn â sut y gallem wneud hynny isod, ac yng Nghwestiwn 4. Byddem yn croesawu eich safbwyntiau ynglŷn â'r awgrymiadau hynny yn ogystal â'ch syniadau am fesurau gwahanol.

Mae HCPC yn gwneud gwaith pwysig. Ein dyletswyddau ydy diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel drwy gyflawni'r safonau rydym yn eu gosod, gweithredu ble gallai fod perygl i ddiogelwch neu ble bydd yr ansawdd yn annigonol, a sicrhau mai'r bobl hynny sydd wedi cofrestru gyda ni ydy'r unig rai sy'n gallu ymarfer yn ddiogel fel aelodau o'r 15 proffesiwn iechyd a gofal rydym yn eu rheoleiddio. Mae angen i ni sicrhau bod y cyllid a'r adnoddau gennym i'n galluogi i gyflawni'r dyletswyddau hynny i safon uchel ac ar sail gynaliadwy.

Diolch yn fawr i chi am roi amser i ddarllen drwy'r ddogfen hon, ac am roi eich adborth ynglŷn â'r cynigion.



**Christine Elliott**
Cadeirydd



**John Barwick**
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

# Crynodeb

Mae HCPC yn gwarchod y cyhoedd drwy reoleiddio dros 300,000 o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal mewn rolau allweddol. Caiff gwaith HCPC ei gyllido drwy'r ffioedd y mae'r bobl hynny sy'n cofrestru yn eu talu. Nid yw'r ffioedd hynny wedi codi yn unol â graddfa chwyddiant a'r cynnydd mewn costau; ar hyn o bryd, nid ydynt yn ddigon i dalu ein costau gweithredu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig codiad o £19.62 yn ffioedd adnewyddu blynyddol HCPC i £117.74. Yn amodol ar gymeradwyaeth gyfreithiol, rydym yn cynnig y byddai codiad yn y ffioedd yn cael ei weithredu gam wrth gam yn unol â'r cylch adnewyddu cofrestriad ar gyfer pob proffesiwn: y cynharaf ym mis Gorffennaf 2023 ar gyfer y proffesiynau cyntaf i adnewyddu, yn 2024 ar gyfer mwy na hanner y rhai sydd wedi cofrestru, ac yn 2025 ar gyfer tua 20%. Byddai ffioedd blynyddol HCPC yn parhau yn is na rhai'r holl reoleiddwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Byddai ffioedd eraill HCPC a delir gan y rhai sydd wedi cofrestru yn codi o'r un gyfran ac ar yr un pryd â'r cynnydd yn y ffi adnewyddu, ym mis Gorffennaf 2023.

Cyn ceisio'r cynnydd hwn, rydym wedi cyflawni gwelliannau gweithredol ac arbedion effeithlonrwydd heb beryglu ein gallu i gyflawni ein dyletswydd statudol. Rydym wedi lleihau ein gofod swyddfa yn sylweddol, gan arbed £1 miliwn y flwyddyn, ac wedi cyflwyno trefniadau gweithio hybrid. Rydym wedi gosod cyllidebau â diffyg, gan ddefnyddio ein cronfeydd arian wrth gefn, nad ydynt yn rhai sylweddol, i fuddsoddi mewn gwella ein systemau a'n prosesau craidd. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi darparu gwelliannau yn ein prosesau Addasrwydd i Ymarfer (AiY), ceisiadau cofrestru ar-lein er mwyn rhoi gwell profiad i'r rhai sy'n cofrestru ac wedi lleihau amserau aros ar gyfer ein gwasanaethau craidd. Rydym hefyd wedi cryfhau ein cyrhaeddiad yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hyn yn gynaliadwy gan y bydd ein cronfeydd arian yn gwbl wag erbyn 2024 ar y raddfa bresennol.

Mae angen y cynnydd hwn a gynigir er mwyn sicrhau y gall HCPC barhau i ddiogelu'r cyhoedd, cefnogi ein gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal, sicrhau y bydd gweithwyr proffesiynol y dyfodol wedi'u haddysgu a'u hyfforddi'n dda, a chyflawni'r amcanion statudol a osodwyd ar ein cyfer gan y Senedd. Petai'r cynnydd hwn yn cael ei weithredu, ein bwriad fyddai symud tuag at godiadau llai, fesul cam yn y dyfodol.

# Beth mae HCPC yn ei wneud

Gwaith HCPC ydy diogelu'r cyhoedd drwy sicrhau bod y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni yn ymarfer yn ddiogel, a thrwy warchod rhag cael unigolion sydd heb ei rheoleiddio na'u hyfforddi yn gwneud defnydd anghyfreithlon o deitlau proffesiynol a reoleiddir.

Rydym yn rheoleiddio dros 300,000 o weithwyr proffesiynol iechyd a gofal galluog ac ymroddgar dros 15 proffesiwn gwahanol. Mae'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ni yn gweithio mewn rolau rheng flaen, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd o argyfwng a chyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, ac maent yn cyflawni rôl hanfodol yn y gwaith o atal, rhoi diagnosis, a thrin nifer enfawr o gyflyrau meddygol. Mae'r rhai sydd wedi cofrestru gyda HCPC wedi bod ar flaen y gad yn ymateb y DU i bandemig Covid ac maent yn allweddol yn ein hadferiad, gan gynnwys y gwaith parhaus o drin ac adsefydlu cleifion sydd â Covid a Covid hir.

Bob blwyddyn, mae HCPC yn cymeradwy tua 70 o raglenni addysg, yn delio â mwy na 1,000 o bryderon AiY a'r llynedd, cafwyd dros 18,000 yn cofrestru o'r newydd o'r DU ac o dramor. Mae HCPC yn gwneud penderfyniadau anodd ble mae llawer yn y fantol, er enghraifft, ynglŷn ag addasrwydd unigolyn i ymarfer neu p'un ai ydynt yn bodloni'r safonau ar gyfer ymarfer yn y DU. Ar gyfer y penderfyniadau a wnawn, mae angen ymchwilio trylwyr o ansawdd uchel, casglu tystiolaeth yn systematig, a phobl annibynnol sydd wedi'u hyfforddi'n drylwyr i wneud penderfyniadau.

Rydym yn cynnal safonau proffesiynol yn y meysydd hyn yn y ffyrdd canlynol:

1 **Gosod safonau addysg ar gyfer gweithwyr proffesiynol y dyfodol**
Rydym yn adolygu ac yn asesu pob un o'r 820 o raglenni addysg a ddilynir er mwyn dod yn gymwys yn ein 15 proffesiwn. Y llynedd, cwblhaodd dros 30,000 o ddysgwyr raglenni a gymeradwywyd gan HCPC a fyddai'n eu galluogi i ddod i mewn i un o'r proffesiynau a reoleiddir gennym. Mae ein gwaith yn cymeradwyo'r rhaglenni hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n dod i mewn i'n proffesiynau yn meddu ar y sgiliau a'r profiad y mae ei hangen arnynt i weithio'n ddiogel ac i safon uchel.

2 **Hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel**
Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau proffesiynol a moesegol y mae'n rhaid i'r rhai sydd wedi cofrestru eu cyflawni.

3 **Diogelu'r cyhoedd a'n gweithwyr proffesiynol rhag ymarferwyr anghyfreithlon**
Mae teitlau'r proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio wedi'u diogelu'n gyfreithiol, sy'n golygu bod rhaid i bobl sy'n defnyddio'r teitlau hynny gael eu rheoleiddio gennym a chyflawni'r safonau a osodir gennym. Rydym yn atal pobl nad ydynt wedi'u rheoleiddio na'u hyfforddi rhag defnyddio'r teitlau hyn yn anghyfreithlon. Rydym yn mynnu eu bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r teitl ac rydym yn erlyn pobl sy'n parhau i wneud hynny.

4 **Atal ymarfer anniogel**
Rydym yn gweithredu i atal ymarfer ble ceir tystiolaeth bod hynny'n rhoi'r cyhoedd dan risg. Gall hyn gynnwys gosod amodau ar ymarfer rhywun neu eu hatal rhag parhau i ymarfer.

# Gwelliannau’n cael eu cyflawni

Yn gynnar yn 2021, lansiodd HCPC Strategaeth 5-mlynedd dan Gadeirydd a Phrif Weithredwr newydd i foderneiddio a gwella perfformiad HCPC. Sefydlodd hynny ein bwriad i fod yn rheoleiddiwr sy’n cyflawni ar lefel uchel, yn gallu addasu ac yn ofalgar gan sicrhau y diogelir y cyhoedd drwy reoleiddio cryf sy’n seiliedig ar dystiolaeth. Dan y strategaeth newydd hon, rydym wedi:

1. **Gwella ansawdd ein proses gwneud penderfyniadau** mewn achosion addasrwydd i ymarfer. Mae ansawdd ein gwaith gwella wedi’i gydnabod gan ein rheoleiddiwr, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA).

*“Mae ymrwymiad HCPC i wella ei brosesau a’r nifer o brosiectau a gyflawnwyd wedi gwneud argraff arnom.”*

*“Rydym wedi gweld gwelliant amlwg yn ansawdd proses gwneud penderfyniadau paneli yn yr achosion rydym wedi’u hadolygu wrth ystyried a yw’r penderfyniadau hynny yn ddigonol i ddiogelu’r cyhoedd.”*

Adroddiad ar Berfformiad HCPC, Awdurdod Safonau Proffesiynol, Mehefin 2022

2. **Lleihau'r amser a gymerir i gwblhau achosion addasrwydd i ymarfer newydd**
   Mae ein peilot a ddefnyddiwyd ar gyfer achosion newydd wedi dangos bod canolbwyntio gweithgaredd ymchwilio yn y camau cynnar yn lleihau’r amser a gymerir i gwblhau achosion addasrwydd i ymarfer.

*Ar gyfer achosion lle rhoddwyd mwy o bwyslais ar y camau cynnar, mae’r amser a gymerir o banel y Pwyllgor Ymchwilio i’r gwrandawiad terfynol wedi lleihau i 28 wythnos, bron i 3 mis (11 wythnos) yn gynt na 39 wythnos ein safon gwasanaeth.*

3. **Creu newid sylweddol yn ein dull hymagwedd tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**
Yn 2021, gwnaethom gyflwyno Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cyntaf HCPC, gan osod gweledigaeth uchelgeisiol a gefnogwyd gan gynllun gweithredu clir. Ym mis Mawrth 2022, ni oedd y rheoleiddiwr cyntaf i symud o beidio â chyflawni i fod yn cyflawni Safon Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y PSA.

*"Mae aelodau'r staff wedi parhau i dderbyn hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chawsom adborth cadarnhaol ynglŷn â datblygiad cydweithredol HCPC ar ei Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-26."*

*"Mae HCPC wedi parhau i weithio i gyflawni ei ymrwymiad bod mynediad cyfartal i bawb i'w wasanaethau a'u bod yn cael eu trin yn deg wrth wneud hynny."*

Adroddiad ar Berfformiad HCPC, Awdurdod Safonau Proffesiynol, Gorffennaf 2021

*"Parhaodd HCPC i ddangos ymrwymiad cryf i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant."*

*"Mae cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant HCPC yn uchelgeisiol ac yn nodi'n eglur pa gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion a osodir yn ei Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2021-26."*

Adroddiad ar Berfformiad HCPC, Awdurdod Safonau Proffesiynol, Mehefin 2022

*"Am y tro cyntaf, rwy'n deall pam mae rhannu fy manylion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig."*
*(Un sydd wedi cofrestru)*

Adborth gan un sydd wedi cofrestru yn dilyn gweithdy cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

4. **Creu tîm newydd yn benodol ar gyfer atal niwed rhag codi**
Mae'r Tîm Cyswllt Proffesiynol wedi cael ei sefydlu er mwyn hyrwyddo ymarfer proffesiynol o ansawdd uchel drwy addysg a chefnogaeth i'r rhai sydd wedi cofrestru, i gyflogwyr ac i fyfyrwyr. Mae'r gwaith hwn yn rhan allweddol o drawsnewid tuag at reoleiddio ataliol sy'n seiliedig ar risg. Mae'r Gwasanaeth wedi darparu 70 o seminarau hyfforddiant am ddim i rai sydd wedi cofrestru, cyflogwyr a myfyrwyr, gan hyrwyddo safonau proffesiynol uchel, gan gynnwys mewn meysydd megis y ddyletswydd gonestrwydd, codi pryderon, ymgynghoriadau o bell, ymarfer myfyriol, rheoli pryderon a hunanatgyfeirio.

*Dywedodd 94% o'r rhai sydd wedi cofrestru a fynychodd ein gweminar ddiweddar ar Y Ddyletswydd Gonestrwydd y byddai eu hymarfer yn newid o ganlyniad.*

*"[Byddaf fi'n] agored a thryloyw wrth ymddiheuro heb ofn"*


*"Byddaf yn teimlo'n fwy hyderus yn cefnogi staff ynglŷn â materion gonestrwydd."*

*"Nid oeddwn yn sylweddoli nad yw ymddiheuriad yn cael ei ystyried yn gyfaddefiad o wneud rhywbeth o'i le. Mae hynny'n gwneud i mi deimlo'n fwy cyfforddus yn ymddiheuro pan fydd angen."*

Adborth gan rai sydd wedi cofrestru yn dilyn gweminar Y Ddyletswydd Gonestrwydd

# Nid yw ein ffi yn ddigon i dalu cost rheoleiddio bellach

Caiff gwaith HCPC ei gyllido gan ffioedd y rhai sydd wedi cofrestru; nid yw'n cael ei gyllido gan lywodraethau na'r GIG. Mae'r holl incwm y mae HCPC yn ei dderbyn yn cael ei wario yn cyflawni ein diben rheoleiddiol. Mae 80% o'n gwariant gweithredu o £33 miliwn yn 2022/23 yn mynd ar swyddogaethau sy'n ofynnol yn gyfreithiol ac yn ôl safonau rheoleiddio. Mae ein swyddogaethau corfforaethol megis Adnoddau Dynol (AD), TG a digidol, yn hanfodol er mwyn galluogi HCPC i gyflawni ei ddiben statudol ac maent yn fach ac o faint sy'n unol â meincnodau'r sector. Mae'r ffordd rydym yn gwario ein hincwm wedi'i amlinellu yn y siart isod:





**Ffigwr 1 – Sut caiff incwm HCPC ei wario**

Rydym wedi ymrwymo i herio ein hunain yn fewnol ynglŷn â'n defnydd o adnoddau a blaenoriaethu, er mwyn sicrhau y cawn y gwerth gorau o bob punt o ffioedd y rhai sydd wedi cofrestru. Mae ein Cyngor yn dal yr uwch-dîm gweithredol i gyfrif mewn perthynas â'r ffordd y caiff ein hincwm ei wario bob mis. Fodd bynnag, er gwaethaf yr arbedion effeithlonrwydd a wnaed gennym, nid yw ein ffioedd wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ac maent eisoes yn annigonol i dalu ein costau gweithredu.


Ers 2015, dim ond un codiad a gafwyd yn ffioedd HCPC. Roedd hwn i fod i gael ei gyflwyno yn 2020, ond cafodd ei ohirio tan2021 ac fe leihawyd y swm, yn rhannol oherwydd pryderon ynglŷn ag effaith y pandemig Covid ar y rhai sydd wedi cofrestru.
Mae'r oedi a'r gostyngiad hwn wedi cyfrannu at y diffyg rhwng ein hincwm a'n gwariant.

Ar raddfa chwyddiant 2022 a ragwelir gan Fanc Lloegr, mae gwerth y codiad yn y ffioedd yn 2021 eisoes wedi diflannu ac mae ein ffi nawr 9% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2015. Heb gynnydd, bydd gwir werth ein ffioedd yn parhau i ddirywio.




**Ffigwr 2 – Effaith chwyddiant ar ffioedd HCPC 2015-2022**

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi bod yn defnyddio ein cronfeydd arian wrth gefn, nad ydynt yn sylweddol iawn, i ateb y diffyg hwn yn y cyllid, ond nid yw hynny'n gynaliadwy. Hyd yn oed o ragdybio gwelliannau effeithlonrwydd parhaus, ac wedi gwneud rhagdybiaethau ynglŷn â chwyddiant yn y dyfodol yn unol â rhagfynegiadau Banc Lloegr, bydd ein cronfeydd arian wrth gefn yn gwbl wag cyn bo hir. Mae Ffigwr 3 isod yn dangos ei bod yn debygol, heb incwm ychwanegol, na fydd gan HCPC unrhyw gronfeydd arian wrth gefn yn weddill erbyn 2024, sy'n golygu bod perygl na fyddwn yn gallu gweithredu mwyach.




**Ffigwr 3 – Cronfeydd wrth gefn HCPC - gorffennol, cyfredol a rhagfynegiad 2020-2025**

# Ein cynigion

Er mwyn datrys y diffyg hwn yn ein hincwm a'n galluogi i barhau i ddiogelu'r cyhoedd, rydym yn cynnig cyflwyno cynnydd o £19.62 yn ein ffi gofrestru flynyddol. Mae hynny'n golygu y byddai'n codi o £98.12 y flwyddyn i £117.74 y flwyddyn.

Byddai'r cynnydd yn weithredol o fis Gorffennaf 2023 ar y cynharaf, yn amodol ar gymeradwyaeth gyfreithiol ac amseru. Ar gyfer rhai proffesiynau, ar sail y cylchoedd adnewyddu cyfnodol ar gyfer pob proffesiwn, ni fyddai'n dod i rym tan 2025. Caiff cyfnodau adnewyddu HCPC ar gyfer pob un o'n 15 proffesiwn eu pennu gan ddeddfwriaeth sylfaenol ac fe'u dangosir yn Atodiad A.

Rydym yn cynnig y dylid cadw'r gostyngiad presennol o 50% i raddedigion[1] ar gyfer dwy flynedd gyntaf eu cofrestriad.

Byddai effeithiau'r cynnydd hwn ar ffioedd gwahanol HCPC fel a ganlyn:

| Ffioedd cofrestru | | |
|---|---|---|
| | **Presennol** | **Cynigion** |
| Rhaglen a gymeradwywyd (gostyngiad)[2] | £49.06 | £58.87 |
| Rhaglen a gymeradwywyd (llawn) | £98.12 | £117.74 |
| Adnewyddu | £98.12 | £117.74 |
| Ailymuno | £98.12 | £117.74 |
| Adfer | £98.12 | £117.74 |
| Rhyngwladol | £98.12 | £117.74 |
| Teidiau a Neiniau [3] | £98.12 | £117.74 |

| Ffioedd craffu ceisiadau | | |
|---|---|---|
| | **Presennol** | **Cynigion** |
| Rhaglen a gymeradwywyd | £68.68 | £82.42 |
| Ailymuno | £147.18 | £176.62 |
| Adfer | £147.18 | £176.62 |
| Rhyngwladol | £539.65 | £647.58 |
| Teidiau a Neiniau | £539.65 | £647.58 |

| Ffioedd graddedigion | | |
|---|---|---|
| | **Presennol** | **Cynigion** |
| Ffi craffu | £68.68 | £82.42 |
| Blwyddyn 1 | £49.06 | £58.87 |
| Blwyddyn 2 | £49.06 | £58.87 |
| Blwyddyn 3 | £98.12 | £117.74 |

1 Ar hyn o bryd, mae graddedigion y DU sy'n ymgeisio yn derbyn gostyngiad o 50% ar eu ffioedd cofrestru ar gyfer dwy flynedd broffesiynol cyntaf eu cofrestriad, ar yr amod eu bod yn ymgeisio cyn pen dwy flynedd wedi iddynt gwblhau eu rhaglen a gymeradwywyd.

2 Mae 'rhaglen a gymeradwywyd' yn golygu rhaglen o addysg a hyfforddiant yn y DU yr ydym yn cymeradwyo y dylid caniatáu i rywun sy'n cwblhau'r rhaglen honno'n llwyddiannus ymgeisio i gael eu cofrestru gyda ni.

3 Mae llwybr 'Teidiau a Neiniau' yn caniatáu llwybr mynediad i'n Cofrestr. Pan fyddwn yn rheoleiddio proffesiwn newydd, rydym wedi agor cyfnod o amser cyfyngedig 'teidiau a neiniau' pryd bydd unigolion nad oes ganddynt gymhwyster a gymeradwywyd, ond sy'n gallu dangos drwy eu hyfforddiant a'u profiad eu bod yn bodloni ein meini prawf, yn gallu cael eu cofrestru.

# Gwybodaeth gymharol

Ein ffioedd blynyddol ydy'r rhai isaf ymhlith y naw rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol. Dyma fyddai'r isaf o hyd o dan y cynigion hyn:

| Rheoleiddiwr | Ffi cofrestru flynyddol |
|---|---|
| Cyngor Ciropracteg Cyffredinol (GCC) ARF | £750 |
| Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) | £680 Deintyddion (£114 Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol) |
| Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) | £406 |
| Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI) | £398 (Fferyllydd); £133 (Safle) |
| Cyngor Optegol Cyffredinol | £360 |
| Cyngor Osteopatheg Cyffredinol | £320 (Mynediad blwyddyn 1); £430 (Blwyddyn 2 y DU); £215 (Blwyddyn 2 graddfa ostyngedig); £570 (Blwyddyn 3 y DU); £320 (Blwyddyn 3 graddfa ostyngedig) |
| Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPC) | £257 (Fferyllydd), £121 (Technegwyr Fferyllfa) |
| Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) | £120 |
| Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) | **Presennol:** £98.12<br>**Cynigion:** £117.74 |

# Bydd y cynnydd hwn yn y ffioedd yn sicrhau dyfodol rheoleiddio effeithiol

Bydd y codiad hwn yn y ffioedd yn sicrhau dyfodol rheoleiddio ar gyfer 15 o broffesiynau iechyd a gofal allweddol. Bydd yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi fel bod modd i ni i barhau i ddiogelu'r cyhoedd a darparu'r gwasanaeth y mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn disgwyl ei gael gan reoleiddiwr modern. Byddwn yn gwneud gwelliannau sylweddol pellach i'r ffordd rydym yn gweithio:

1. **Gwasanaeth cwsmeriaid**
   Er ein bod wedi cyflawni gwelliannau yn ystod y misoedd diwethaf, er enghraifft, haneru ein hamser ymateb i e-byst, rydym eisiau bod yn llawer mwy ymatebol i'r rhai sydd wedi cofrestru a darparu gwybodaeth ar y pryd i ymgeiswyr.

2. **Swyddogaethau rheoleiddio**
   Bydd parhau i fuddsoddi yn y prosesau allweddol hyn yn gwella'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau cofrestru ac adnewyddu, i gymeradwyo rhaglenni addysg a hyfforddiant ac i gwblhau achosion addasrwydd i ymarfer yn unol â'n safonau rheoleiddio.

3. **Datblygu dadansoddeg data er mwyn sicrhau tegwch a chefnogi datblygiad y gweithlu**
   byddwn yn parhau â'n gwaith yn dadansoddi canlyniadau rheoleiddio yn ôl nodweddion gwarchodedig, er mwyn sicrhau bod ein prosesau yn deg i bawb. Byddwn yn datblygu ein gallu i gloddio ein data i gefnogi gwaith cynllunio'r gweithlu a fydd yn ei dro yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd yn ddiogel.

4. **Cynyddu ein heffeithlonrwydd hirdymor**
   Mae ein deddfwriaeth bresennol yn feichus ac yn golygu bod angen i ni fynd â phob achos addasrwydd i ymarfer, ble mae cosbau'n bosib, drwy'r holl broses addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys gwrandawiad terfynol. Bydd y cynnydd arfaethedig yn y ffioedd yn darparu'r

adnoddau y mae eu hangen arnom i weithredu'r diwygiadau rheoleiddio rydym yn eu ceisio, drwy weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'n gwaith.

# Sut rydym yn helpu'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ffioedd ar hyn o bryd

### Hyrwyddo rhyddhad treth

Gall y rhai sydd wedi cofrestru hawlio rhyddhad treth yn erbyn eu ffioedd, a gall y rhai sy'n hawlio'r rhyddhad hwn arbed oddeutu £24 y flwyddyn (yn dibynnu ar y graddfeydd treth a delir). Rydym yn hyrwyddo hyn ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru gyda ni drwy ein gwefan ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae arolwg diweddar a gynhaliwyd gennym (Awst 2022) yn awgrymu mai dim ond 10% o'r rhai sydd wedi cofrestru sy'n hawlio rhyddhad treth ar eu ffi gofrestru, a bod dros 60% heb fod yn ymwybodol o'r dewis hwn.

Petai rhywun sydd wedi cofrestru nad yw'n hawlio'r rhyddhad hwn yn dechrau gwneud, byddai hynny'n talu am y cynnydd arfaethedig ac yn rhoi arbediad net i'r un sydd wedi cofrestru.

### Galluogi talu fesul cam

Gall y rhai sydd wedi cofrestru dalu eu ffi mewn pedwar rhandaliad dros y cyfnod cofrestru dwy-flynedd, gan helpu i wasgaru'r gost dros y cyfnod.

# Beth mwy allwn ni ei wneud i ymateb i'r hyn y mae'r rhai sydd wedi cofrestru'n ei ddweud wrthym?

Rydym wedi siarad ag ystod eang o grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnwys cyrff proffesiynol ac undebau llafur, wrth i ni ddatblygu'r cynigion hyn. O'r gwaith ymgysylltu hwn, rydym eisoes yn gwybod bod sicrhau amser i ymgymryd â datblygu proffesiynol parhaus (DPP) o ansawdd uchel yn her i lawer o'r rhai sydd wedi cofrestru. Amharwyd yn sylweddol ar y cyfleoedd i ymgymryd â DPP yn ystod y pandemig ac mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn troi at eu rheoleiddiwr i geisio cymorth. Mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn dweud wrthym hefyd yr hoffent weld cyfathrebu sydd wedi'i deilwra yn fwy rheolaidd a chyfleoedd i ymwneud yn uniongyrchol â gwaith HCPC.

Rydym wedi gwrando'n ofalus ar y safbwyntiau hyn ac rydym yn gwerthfawrogi'r holl sylwadau ac awgrymiadau. Rydym yn deall yn iawn nad yw cynyddu ein ffi, ni waeth pa mor angenrheidiol yw hynny, yn gynnig hawdd i'w gefnogi. Rydym yn cytuno â'r rhanddeiliaid sydd wedi dweud wrthym bod angen i ni ddangos gwerth rheoleiddio i'r rhai sydd wedi cofrestru gyda ni a cheisio lliniaru effaith y codiad yn y ffioedd.

Mae'r canlynol yn fesurau i liniaru'r cynnydd yr hoffem eu hystyried yn fanylach:

1. **Cynyddu gwaith i hyrwyddo rhyddhad treth**
   Gallem hyrwyddo hyn yn ehangach ein hunain yn ogystal â gweithio gyda chyrff proffesiynol a phartneriaid i sicrhau bod mwy o'r rhai sydd wedi cofrestru yn gwybod am yr opsiwn hwn ar gyfer arbed arian.

2. **Gwasgaru taliadau debydau uniongyrchol dros gyfnod ehangach**
   Byddai hyn yn golygu y gellid gwasgaru taliadau yn symiau llai, mwy rheolaidd drwy'r flwyddyn er mwyn helpu i'w gwneud yn haws ymdopi â nhw. Gallem ymchwilio i weld sut byddai'r ffordd orau y gallem newid ein systemau ariannol a TG i gefnogi hyn.

Rydym wedi ystyried a fyddai modd codi ffioedd is ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ar gyflogau is. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu prosesau gweinyddol a chostau systemau ychwanegol a, hyd yn oed wedi'r codiad arfaethedig yn y ffioedd, ni fyddent yn fforddiadwy. Serch hynny, mae hyn yn rhywbeth yr hoffem ei ystyried yn y tymor hirach unwaith y byddwn wedi sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd rydym yn eu disgwyl yn sgil moderneiddio'r gyfundrefn ddeddfwriaethol yr ydym yn gweithio oddi mewn iddi. Rydym yn aros ar hyn o bryd am gadarnhad gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn ag amserlen y gwaith hwn. Yn y dyfodol, hoffem symud hefyd at gael adolygiadau ffioedd llai, mwy graddol, yn unol â rheolaeth ariannol dda ar draws y sector cyhoeddus a'r sector rheoleiddio.

Fel ymateb i'r adborth rydym wedi'i dderbyn, byddem hefyd yn hoffi canolbwyntio ar y canlynol:

3. **Gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau amser DPP gwarchodedig**
   Rydym yn gwybod bod y rhai sydd wedi cofrestru yn gallu cael trafferth crafu amser gwarchodedig ar gyfer DPP gorfodol ac yn gallu teimlo bod archwiliadau DPP arfaethedig yn frawychus. Gallem ymchwilio ymhellach i weld beth arall gallwn ni ei wneud i gefnogi'r rhai sydd wedi cofrestru yn y maes hwn, er enghraifft, drwy roi adnoddau ar gyfer gwaith gyda chyflogwyr i hyrwyddo pwysigrwydd amser DPP gwarchodedig fel un o ofynion gorfodol rheoleiddio.

4. **Gwella cyfathrebiadau ac ymgysylltu**
   Hoffem fuddsoddi i wella a theilwra ein cyfathrebiadau i'r rhai sydd wedi cofrestru ac i randdeiliaid eraill, ac i sicrhau ei bod yn haws i bawb gysylltu â ni. Rydym hefyd eisiau darparu gwybodaeth sy'n fwy perthnasol ac ar gael mewn modd amserol. Hoffem wella ein gallu i weithio'n agosach gyda'r rhai sydd wedi cofrestru, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill er mwyn cael gwybodaeth fydd yn llywio'r hyn rydym yn ei wneud a'r ffordd rydym yn gweithio.

5. **Datblygu ymagwedd dosturiol tuag at reoleiddio ymhellach**
   Hoffem fuddsoddi i wneud gwelliannau pellach er mwyn darparu mwy o gefnogaeth i'r rhai sydd wedi cofrestru sy'n ymwneud â'n prosesau rheoleiddio, gan gynnwys cofrestru ac addasrwydd i ymarfer.

Mae'r rhain yn awgrymiadau rydym wedi'u derbyn ac y gallem ymchwilio ymhellach iddynt wedi i'r codiad arfaethedig yn y ffioedd gael ei gyflwyno. Er na fyddai modd i ni roi'r rhain ar waith ar unwaith (oherwydd na fyddai'r codiad arfaethedig wedi'i gyflwyno'n llawn tan 2025), byddai modd i ni ddechrau cynllunio ar eu cyfer unwaith y caiff unrhyw godiad yn y ffioedd ei gadarnhau.

Byddem yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â'r pum awgrym yma, ac ynglŷn â pha rai sydd bwysicaf ar gyfer eu hystyried ar unwaith. Hoffem glywed awgrymiadau eraill hefyd ynglŷn â blaenoriaethau y dylem ganolbwyntio arnynt.

# Effeithiau ar gydraddoldeb

Cyflwynir ein hasesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn Atodiad C. Mae hwnnw'n nodi effeithiau cadarnhaol a rhai negyddol posib i'n cynigion. Mae unrhyw gynnig i gynyddu ein ffi yn debygol o gael mwy o effaith negyddol ar y rhai sydd fwyaf tebygol o fod ar gyflogau is ymhlith y rhai sydd wedi cofrestru, megis gweithwyr proffesiynol ifanc, y gallai fod yn fwy tebygol eu bod ar ddechrau eu gyrfaoedd, menywod, rhai sydd ag anableddau, pobl o rai cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a rhai sydd â mwy nag un o'r nodweddion hyn.

Mae'r effaith ar weithwyr ifanc yn cael ei liniaru gan ein gostyngiad o 50% i raddedigion, sy'n rhywbeth rydyn ni'n bwriadu ei gadw. Mae hyn yn lleihau'r gost i fyfyrwyr sy'n ymuno â'r Gofrestr am y tro cyntaf, am un cylch cofrestru (2 flynedd). Os bydd rhywun sydd newydd raddio yn ymuno â'r gofrestr lai na chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn broffesiynol ganlynol, byddant yn derbyn

gweddill y cyfnod yn ddi-dâl hefyd (y ‘cyfnod di-dâl’).

Rydym wedi amlinellu rhai o’r ffyrdd y gallem liniaru effaith ariannol y codiad hwn yn y ffioedd uchod, gan gynnwys hyrwyddo rhyddhad treth a gwasgaru debydau uniongyrchol dros gyfnod ehangach.

Hoffem glywed eich safbwyntiau ynglŷn ag effeithiau posib y cynigion hyn ar gydraddoldeb a sut y gellir eu lliniaru. Mae Cwestiwn 5 isod yn gofyn a ydych yn gwybod am unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol posib eraill ar gydraddoldeb sy’n deillio o’r cynigion hyn. Mae Cwestiwn 6 yn gofyn a oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol. Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion i’n cwestiynau ymgynghori yn ofalus wrth i ni fynd trwy’r ymatebion a dderbynnir.

# Cwestiynau ymgynghori

1 **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rhesymeg dros ein cynnydd arfaethedig i'n ffioedd yn eglur?**

2 **O ystyried y rhesymeg a roddwyd, i ba raddau rydych chi'n cefnogi'r cynigion i gynyddu'r ffioedd?**

3 **I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem gadw'r gostyngiad o 50% i raddedigion y DU ar gyfer dwy flynedd gyntaf eu cofrestriad?**

4 **Yn yr ymgynghoriad, rydym wedi amlinellu dau faes yr hoffem eu hymchwilio er mwyn lliniaru effaith y codiad arfaethedig yn y ffioedd. Rhowch wybod i ni i ba raddau rydych yn cefnogi'r rhain. Dywedwch wrthym hefyd am unrhyw fesurau lliniaru eraill rydych yn meddwl y dylem eu hystyried.**

Y mesurau lliniaru ydy:
a: Cynyddu ein gwaith i hyrwyddo rhyddhad treth
b: Gwasgaru taliadau debydau uniongyrchol dros gyfnod ehangach

5 **Yn yr ymgynghoriad, rydym wedi amlinellu sut bydd y codiad arfaethedig yn y ffioedd yn ein galluogi i wella ein gweithgareddau rheoleiddio craidd, gan gynnwys gwasanaethau cwsmeriaid ac addasrwydd i ymarfer, datblygu ein dadansoddeg data a gwella ein heffeithlonrwydd drwy ddiwygiadau deddfwriaethol.**

**Rydym wedi amlinellu meysydd eraill yr hoffem eu blaenoriaethu hefyd, ar sail adborth rhanddeiliaid. Rhowch wybod i ni i ba raddau rydych yn cytuno â'r rhain. Dywedwch wrthym hefyd am unrhyw feysydd eraill rydych chi'n meddwl y dylem eu blaenoriaethu.**

Y meysydd ychwanegol ydy:
a. Gweithio gyda chyflogwyr i sicrhau amser DPP a warchodir yn well
b. Gwella cyfathrebiadau ac ymgysylltu â rhai sydd wedi cofrestru a rhanddeiliaid
c. Datblygu ymagwedd dosturiol tuag at reoleiddio ymhellach

6 **Yn ychwanegol at yr effeithiau ar gydraddoldeb a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, ydych chi'n meddwl bod unrhyw effeithiau eraill cadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig?**

**Y nodweddion gwarchodedig ydy: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodasau a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.**

7 **A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gydraddoldeb rydych chi wedi'u nodi?**

8 **A oes gennych unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ynglŷn â'r cynigion a'r wybodaeth sydd yn yr ymgynghoriad?**

# Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ewch i www.smartsurvey.co.uk/s/HCPC_Fee_Consultation/ a chwblhewch ein harolwg ar-lein.

Os ydych yn dymuno cael fersiwn papur o'r ddogfen hon, neu fersiwn mewn fformat gwahanol, neu os ydych yn dymuno ymateb mewn ffordd wahanol, e-bostiwch consultation@hcpc-uk.org neu ysgrifennwch at:

**Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal,**
**Park House, 184-186 Kennington Park Road**
**Llundain**
**SE11 4BU**

**Bydd yr ymgynghoriad a'r arolwg yn cau am 23:59 ar ddydd Iau 15 Rhagfyr**

# Atodiadau:

## Atodiad A
## Cyfnodau adnewyddu Gorffennaf 2023 - Mehefin 2025

| Proffesiwn cofrestredig HCPC | Dechrau'r cyfnod adnewyddu |
|---|---|
| Gwyddonwyr clinigol | 1 Gorffennaf 2023 |
| Prosthetwyr / orthotyddion | 1 Gorffennaf 2023 |
| Therapyddion iaith a lleferydd | 1 Gorffennaf 2023 |
| Therapyddion galwedigaethol | 1 Awst 2023 |
| Gwyddonwyr biofeddygol | 1 Medi 2023 |
| Radiograffwyr | 1 Rhagfyr 2023 |
| Ffisiotherapyddion | 1 Chwefror 2024 |
| Therapyddion celf | 1 Mawrth 2024 |
| Dietegwyr | 1 Ebrill 2024 |
| Ciropodyddion / podiatryddion | 1 Mai 2024 |
| Cyflenwyr cymhorthion clyw | 1 Mai 2024 |
| Ymarferwyr adrannau llawfeddygol | 1 Medi 2024 |
| Ymarferwyr seicoleg | 1 Mawrth 2025 |
| Orthoptyddion | 1 Mehefin 2025 |
| Parafeddygon | 1 Mehefin 2025 |

# Atodiad B
## Gwybodaeth ynglŷn â sut i hawlio rhyddhad treth ar ffioedd a chanlyniadau arolwg


Gall trethdalwyr y DU hawlio treth yn ôl ar eu ffi adnewyddu HCPC bob blwyddyn. Os ydych chi'n talu treth ar y raddfa safonol o 20%, gallwch chi hawlio tua £19 yn ôl ar eich ffi adnewyddu flynyddol o £98.12.

### Sut i hawlio

- Os ydych chi'n cwblhau dychweliad treth hunanasesu, gallwch chi hawlio rhyddhad treth o'ch ffioedd cofrestru ar dudalen cyflogaeth y dychweliad.
- Os nad ydych chi'n cyflwyno dychweliad treth, gallwch chi hawlio rhyddhad treth drwy ddefnyddio ffurflen P87: Rhyddhad treth ar gyfer treuliau cyflogaeth, sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan CThEF - https://www.gov.uk/guidance/daim-income-tax-relief-for-your-employment-expenses-p87.cy
- Gallwch ffonio CThEF a gofyn am ryddhad treth ar eich ffioedd. Mae'r manylion cysylltu ar wefan CThEF - https://www.gov.uk/contact-hmrc

### Canlyniadau arolwg

Cynhaliwyd yr arolwg hwn o rai sydd wedi cofrestru gyda HCPC rhwng 15 a 22 Awst 2022. Roedd 1,105 o ymatebwyr.




**Ffigwr 4 – Ymwybyddiaeth rhai sydd wedi cofrestru o ryddhad treth**

# Atodiad C
## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Gallwch lawrlwytho hwn ar ein gwefan:

www.hcpc-uk.org/consultation-on-changes-to-fees-eia/

hcpc health & care professions council | hcpc cyngor proffesiynau iechyd & gofal